OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 1317 (Cy. 135)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 30, Parc Busnes Porth Caerdydd) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014

Gwnaed	*13 Mai 2014*
Yn dod i rym	*14 Mai 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (1984)(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**)yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mai 2014. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 30, Parc Busnes Porth Caerdydd) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014.

(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y cyfyngiadau" *("restriction period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 14 Mai 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y darnau o'r draffordd” *(“the lengths of the motorway”)* yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darn o'r draffordd” *(“the length of the motorway”)* yw'r darn hwnnw o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6 ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiadau, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6 ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiadau, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darnau o’r draffordd.

Atal Dros Dro

4. Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974(**1**), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o draffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2, drwy hyn wedi eu hatal ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 ar waith.

Cymhwyso

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(**1**) O.S. 1974/502.

Cyfnod Para'r Gorchymyn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 13 Mai 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

ATODLENNI

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER 30 MYA

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 30 y draffordd o bwynt 137 o fetrau i'r gorllewin o'r fan lle y mae'n cysylltu â chylchfan y Gyfnewidfa am bellter o 52 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 20 MYA

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 30 y draffordd o bwynt 85 o fetrau i'r gorllewin o'r fan lle y mae'n cysylltu â chylchfan y Gyfnewidfa i'w chyffordd â chylchfan y Gyfnewidfa.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 30 y draffordd o'r fan lle y mae'n gwyro oddi wrth gylchfan y Gyfnewidfa am bellter o 127 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain.